# PECYN GWYBODAETH WARDEN GWIRFODDOL 2024

## PARC CENEDLAETHOL ERYRI



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

www.eryri.llyw.cymru



# Tîm Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Chynllun Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa! Mae'r gwaith y mae Wardeiniaid gwirfoddol yn ei wneud ar y mynydd yn hynod werthfawr a byddant yn chwarae rhan allweddol wrth ddiogelu'r dirwedd a helpu eraill i fwynhau cefn gwlad mewn ffordd ddiogel a pharchus.

Darllenwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda, a chofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddod yn Warden gwirfoddol ar Yr Wyddfa – ein mynydd uchaf a mwyaf poblogaidd!

# Eich rôl chi:

Mae rôl Warden Gwirfoddol yn un hynod bwysig - mae'n cynorthwyo'r Parc Cenedlaethol i geisio rheoli mynydd prysuraf y genedl, tra'n darparu gwybodaeth a chymorth pwysig i rai o'i 600,000 o ymwelwyr.

Mae'r rôl yn rhoi cyfle i chi ofalu a gwarchod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn ogystal â chynnal a gwella mynediad ar hyd rhai o'r llwybrau mwyaf poblogaidd yn y wlad. Mewn gwirionedd, mae'r gwasanaeth y mae'r Wardeiniaid gwirfoddol yn ei ddarparu bron yn anfesuradwy (er ein bod yn casglu data, taflenni amser a ffigurau i'n cynorthwyo gyda hyn fel y gallwn o leiaf geisio arddangos y gwasanaeth gwerthfawr sy'n cael ei ddarparu). Rydym wedi darparu dadansoddiad byr o rhai o'r tasgau a'r rolau allweddol y byddwch yn eu cyflawni tra byddwch ar y mynydd fel Warden gwirfoddol -





# Patrolio llwybrau'r Wyddfa:

Un o elfennau mwyaf dymunol rôl y Warden gwirfoddol yw'r gofyniad i batrolio 6 prif lwybr Yr Wyddfa. Mae hyn fel arfer yn golygu cerdded i fyny'r llwybrau mewn grwpiau o 2 warden gwirfoddol neu fwy, gan ddarparu cymorth a chyngor i'r cyhoedd ar hyd y ffordd.

Er bod 6 prif lwybr i fyny'r Wyddfa, gofynnwn i'r wardeiniaid gwirfoddol geisio blaenoriaethu'r llwybrau mwyaf poblogaidd tra ar batrôl, mae hyn yn golygu llwybrau Llanberis, Pyg a'r Mwynwyr - bydd hyn yn golygu bod y siawns o ddod ar draws cerddwyr a gallu cynnig cyngor a delio â materion eraill yn cynyddu ar y llwybrau hyn. Fodd bynnag, dylai fod digon o gyfleoedd i Wardeiniaid gwirfoddol batrolio llwybrau Watkin, Cwellyn neu lwybr Rhyd Ddu hefyd o bryd iw gilydd.

Wrth batrolio'r llwybrau i fyny'r Wyddfa, gofynnwn i chi dreulio peth amser yn y mannau prysuraf lle efallai y bydd cerddwyr angen cyngor gan gynnwys Bwlch y Moch, man cwrdd y PYG a'r Mwynwyr, Bwlch Glas a Chopa'r Wyddfa. Yn aml, y mannau prysuraf hyn yw'r lleoedd lle gall ymwelwyr gael budd o gael rhywfaint o arweiniad, er enghraifft gall y rhai ym Mwlch y Moch fod yn ansicr ynghylch pa un yw'r llwybr iawn i fyny'r Wyddfa ar lwybr PYG. Gofynnwn yn garedig i chi 'leoli eich hun' fel petai, yn y mannau prysuraf hyn, gan sicrhau bod eich bathodyn Parc Cenedlaethol yn amlwg, a'ch bod yn barod i gynnal sgwrs a chynorthwyo cerddwyr yn ôl yr angen.



## Rhoi cyngor a chymorth i'r cyhoedd:

Mae tua 600,000 o bobl yn cerdded i fyny'r Wyddfa bob blwyddyn - nid yw llawer o'r rhain erioed wedi bod yma o'r blaen a mae lefel sgiliau a phrofiad yn gallu amrywio. Un o rolau pwysig y wardeiniaid gwirfoddol yw rhoi cymorth i'r bobl hyn ac ymateb i'w cwestiynau fel sy'n angenrheidiol – sy'n gyfle pwysig i rannu eich profiad o'r Wyddfa hefo nhw.

Mae hwn yn aml yn gyfle i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am y llwybrau eu hunain, sut i sicrhau eu bod yn dilyn y llwybr iawn, pa mor dechnegol yw'r llwybr, pa mor hir y bydd yn ei gymryd i gyrraedd y copa ac yn y blaen.

Elfen hanfodol arall sydd angen ei egluro i'r cyhoedd weithiau yw'r Côd Cefn Gwlad – hynny ydi, sut i sicrhau bod y cyhoedd yn glynu at y Côd Cefn Gwlad, eu bod yn eu bod yn parchu'r mynydd, y tirwedd a'r tirfeddianwyr sy'n ffermio'r tir.



## Helpwch y Parc Cenedlaethol i ddelio â phroblem sbwriel ar Yr Wyddfa:

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn trio eu gorau glas bob amser i fynd i'r afael â'r broblem ddigalon o sbwriel yn Eryri, mae hyn yn cynnwys ymgyrch 'Yr Wyddfa Ddi-blastig', cynllun sydd bron yn chwyldroadol wrth geisio atal y defnydd o blastig ar Yr Wyddfa a chael y cyhoedd i gymryd cyfrifoldeb am y mynydd.

Er hynny, mae sbwriel yn parhau i fod yn broblem ar Yr Wyddfa, gyda'r Wardeiniaid gwirfoddol yn casglu tua 600 bag o sbwriel tra ar batrolau ar Yr Wyddfa yn 2023.

Agwedd bwysig ar batrolau wardeniaid gwirfoddol yw casglu sbwriel ar hyd llwybrau'r Wyddfa – mae hyn yn hanfodol wrth ddiogelu'r amgylchedd, cynorthwyo a gwarchod bioamrywiaeth a chreu profiad cerdded mwy dymunol yn Eryri ar gyfer y miloedd o ymwelwyr sy'n glanio ar y mynydd bob blwyddyn.

# Rolau eraill:

Bydd digon o gyfleoedd ychwanegol i chi wirfoddoli a darparu gwasanaeth gwerthfawr y tu allan i 6 prif lwybr Yr Wyddfa, mae'r rhain yn cynnwys –





Bod yn bresennol yn fan dehongli'r Parc Cenedlaethol – bob penwythnos yn ystod y prif dymor mae angen mynd â'r fan ddehongli allan i naill ai Nant Gwynant, Nant Peris neu ddechrau llwybr Llanberis, lle mae ei detholiad o fapiau a delweddau yn darparu gwybodaeth ac arweiniad hanfodol i ymwelwyr di-ri. Mae cyfle i'r wardeiniaid gwirfoddol ymuno ag un o'r wardeiniaid eraill gyda'r fan ddehongli yn ateb cwestiynau a rhoi cyngor i'r cyhoedd, neu i fynd â'r fan allan mewn grwpiau.



Bod ar gael a chyflenwi fel bo'r angen yn ein hwb gwybodaeth ym Mhen y Pass – yn aml y man galw cyntaf i'r rhai sy'n cyrraedd Pen y Pass gyda'r nod o gerdded i fyny'r PYG neu drac y Mwynwyr, mae'r hwb gwybodaeth yn adnodd gwerthfawr lle gall y cyhoedd ddod i mewn a gofyn cwestiynau am lwybrau'r Wyddfa, neu brynu nwyddau diogelwch mynydd hanfodol (fel siacedi glaw, mapiau neu hetiau cynnes) neu gofrodd i'w hatgoffa o'u hamser ar Yr Wyddfa. Mae cyfleoedd i'r wardeiniaid gwirfoddol ddarparu presenoldeb yn yr hwb, os ydych chi awydd ryw newid bach yn hytrach na bod allan ar y mynydd.





Cynnal a chadw a gwella llwybrau – dan arweiniad Wardeiniaid yr ardal, bydd y wardeiniaid gwirfoddol yn cael cyfle i gyflawni rhai prosiectau mynediad a chadwraeth pwysig, megis agor ceuffosydd a draeniau ochr i leihau erydiad, glanhau graffiti oddi ar gerrig, atgyweirio gatiau a chamfeydd, rheoli rhywogaethau ymledol a phlannu coed. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella mynediad a gwella bioamrywiaeth o fewn Eryri.



# *Nodyn pwysig:

Ychydig yn lletchwith efallai, ond yn bwysig beth bynnag...

Wrth gwrs, rydym yn sylweddoli pwysigrwydd unrhyw ddiwrnod a roddir gan y gwirfoddolwyr i fynd allan i'n cynorthwyo i batrolio'r Wyddfa, fel y soniwyd o'r blaen, mae'r cymorth a ddarperir bron yn anfesuradwy, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech a'r ymrwymiad y mae'r gwirfoddolwyr yn ei ddarparu yn fawr iawn.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chadernid y gwasanaeth wardeinio gwirfoddol, gofynnwn yn garedig i Wardeiniaid gwirfoddol ystyried cyfrannu **o leiaf 4x diwrnod gwirfoddol y tymor**, naill ai allan ar batrôl neu yn y fan ddehongli/Hwb Gwybodaeth Pen y Pass.

Gofynnwn hyn yn ostyngedig gyda'r nod o sicrhau y gellir patrolio'r rhan fwyaf o'r llwybrau ar y mwyafrif o benwythnosau, a'n bod yn gallu cynnal gwasanaeth gwirfoddolwyr llwyddiannus a gwerth chweil drwy gydol y tymor.

Fel y gwyddoch mae'n debyg, fel Warden gwirfoddol, mae'n bosibl y bydd aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i chi am rywfaint o gyngor ynghylch cerdded Yr Wyddfa, gyda'r bwriad o elwa o'ch profiad chi fel wardeiniaid gwirfoddol. Felly, mae'n bwysig bod gan bob un ohonoch y profiad perthnasol a'ch bod yn gyfarwydd â chynefin a llwybrau'r Wyddfa, er mwyn gallu rhoi'r cyngor priodol i'r cyhoedd yn unol â hynny. Dim ond trwy fod allan yn rheolaidd ar Yr Wyddfa y gellir llwyddo i gael y math hwn o brofiad a bod yn gyfarwydd iawn a'r cynefin.

# Rhestr Offer a Chyfarpar:

Dyma restr o'r offer a'r cyfarpar a argymhellir ar gyfer y Wardeiniaid gwirfoddol, ond gallwch ei haddasu i gwrdd â'ch gofynion eich hun:

**Esgidiau cerdded cyfforddus a chadarn**

**Trowsus dal dŵr**

**Côt dal dŵr**

**Het a menig**

**Haenau o Ddillad sbâr**

**Haenau o Ddillad Cynnes**

**Cinio**

**Digonedd o ddŵr**

**Sbectol haul ac eli haul**

**Ffôn symudol wedi'i egnio'n llawn**

---

**Gall yr offer canlynol gael ei ddarparu gan y Parc Cenedlaethol a bydd angen ei godi cyn unrhyw batrôl Warden.**

---

**1:25000 OS (OL17) Map o'r Wyddfa**

**Cwmpawd, chwiban a fflachlamp**

**Blanced ffoil**

**Poteli o ddŵr sbâr**

**Cyfarpar Cymorth Cyntaf**

**Fest Lachar**

**Bagiau bin**

**Menig tafladwy**




## Offer a Chyfarpar:

Fel Wardeniaid gwirfoddol, byddwch yn cael rhywfaint o offer a chyfarpar sy'n eich dynodi fel Warden gwirfoddol ac fel rhywun sy'n cynrychioli'r Parc Cenedlaethol - gallai hyn fod yn siaced weledadd, cap pêl fas neu fand breichiau, ac ati - pob un â logo'r Parc Cenedlaethol yn cael ei arddangos. Gofynnwn yn garedig eich bod yn gwisgo'r pecyn pwrpasol hwn ac yn arddangos y logo yn falch bob tro y byddwch allan ar batrôl - drwy hyn byddwch yn 'weladwy' fel cynrychiolwyr y Parc Cenedlaethol i'r cyhoedd ac yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gysylltu â chi gydag unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

# Amserlen ddyddiol:

Mae'r canlynol yn enghraifft o ddiwrnod patrôl warden gwirfoddol ar Yr Wyddfa:

| | |
|---|---|
| **8:30 am** | Cwrdd ym Mhen y Pass – sesiwn briffio a chasglu cyfarpar /offer; cytuno ar amser dychwelyd; rhoi'r wybodaeth feddygol / manylion perthynas agosaf ddiweddaraf i'r warden ar ddyletswydd. |
| **9:00 am** | **Tîm A:** Gyrru i lawr i Lanberis a pharcio ym maes parcio Rheilffordd Yr Wyddfa. Patrolio llwybr Llanberis gan gynnwys casglu sbwriel a chlirio unrhyw ddraeniau ochr yn ôl yr angen. Siarad â cherddwyr a chynnig cyngor yn ôl yr angen. Treulio amser yng nghaffi'r copa, Hafod Eryri, i siarad â cherddwyr. Dychwelyd i Lanberis yna Pen y Pass.<br><br>**Tîm B:** Mynd i fyny llwybr PyG tuag at gopa'r Wyddfa. Casglu sbwriel ar hyd y llwybr. Treulio awr ym Mwlch y Moch yn siarad â cherddwyr a chynnig cyngor i gerddwyr. Dychwelyd i Ben y Pass i lawr llwybr y Mwynwyr. |
| **3:00 pm** | Dad-briffio ym Mhen y Pass gyda warden dyletswydd. |



## Gwybodaeth Ychwanegol:

Rydym yn gweithredu system gyfeillio / 'bydi' bob amser ar Yr Wyddfa, sy'n golygu mai dim ond mewn grwpiau o o leiaf 2 y byddwch yn patrolio. Byddwch yn gallu gweld pa warden gwirfoddol sy'n patrolio pa lwybr yn ystod y 'broses gofrestru' – yna gallwch ddewis pa lwybr i'w batrolio a gwneud trefniadau gyda'ch cyd-wardeiniaid gwirfoddol (e.e. rhannu car) os oes angen. Mae hyn yn bwysig o ran iechyd a diogelwch, ond hefyd o ran sefydlu perthynas gyda chyd-Wardeiniaid gwirfoddol a meithrin cyfeillgarwch!

Gan ei fod yng nghalon Cymru, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd bob dydd. Mae 57% o drigolion Eryri yn siarad Cymraeg, ac mae'r Gymraeg yn un o rinweddau arbennig Eryri.

Drwy gyfrwng ein gwaith, mae'r Awdurdod yn annog cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein gwasanaethau gwirfoddol.

Er mwyn cyflawni hyn, ein nod yw defnyddio'r system 'cyfeillio' sydd ar waith o fewn y gwasanaeth Wardeinio gwirfoddol. Os yw'n bosibl, rydym yn annog paru dysgwyr Cymraeg a Wardeiniaid gwirfoddol sy'n siarad Cymraeg tra allan ar batrôl, fel bod cyfle yn cael ei roi i'r rhai sy'n dymuno datblygu eu gallu ac ymarfer siarad Cymraeg, er mwyn cynyddu eu hyder wrth iddynt ddefnyddio'u Cymraeg.

Mae hyn hefyd yn sicrhau bod y Wardeiniaid gwirfoddol yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd y maent yn cwrdd â nhw tra allan yn patrolio'r Wyddfa.

# Y Côd Cefn Gwlad:

**Edrych ar ôl planhigion a bywyd gwyllt**

- Byddwch yn ofalus i beidio â difrodi planhigion dan draed a pheidio ag aflonyddu ar unrhyw fywyd gwyllt cyfagos. Dilynwch y llwybrau lle bynnag y bo modd.

**Dilynwch arwyddion a chyfarwyddiadau**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar y llwybr a pheidiwch ag anwybyddu unrhyw arwyddion sy'n eich rhybuddio am beryglon.

**Cadwch at y llwybr**

- Mae cadw at y llwybr yn helpu i leihau effeithiau erydiad tir ond peidiwch â chymryd camau peryglus / anodd er mwyn cadw at y llwybrau.

**Gadewch giatiau fel y daethoch o hyd iddynt**

- Os byddwch yn dod ar draws unrhyw gatiau agored, gadewch nhw ar agor (efallai y bydd da byw angen cael mynediad at ddŵr mewn caeau eraill. Os dewch chi ar draws unrhyw gatiau wedi cau, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cau ar eich ôl.

**Byddwch yn ystyriol o gerddwyr eraill**

- Byddwch yn ystyriol o gerddwyr eraill bob amser. Peidiwch â rhwystro llwybrau ac, cofiwch, mae cyfarchiad cyfeillgar yn mynd yn bell bob amser.

## Arwyddion a Symbolau Cefn Gwlad

| | |
|---|---|
| | **Llwybr Troed Cyhoeddus**<br>Mae saeth melyn yn symbol sy'n dynodi llwybr cyhoeddus i gerddwyr a defnyddwyr sgwteri symudedd yn unig. |
| | **Llwybr Ceffyl / Marchogion**<br>Mae saeth las yn symbol sy'n dynodi llwybr i gerddwyr, defnyddwyr sgwteri symudedd, beicwyr a marchogwyr. |
| | **Cilffordd Gyfyngedig**<br>Mae saeth borffor yn symbol sy'n dynodi llwybr i gerddwyr, defnyddwyr sgwteri symudedd, beicwyr, marchogwyr a cherbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau. |
| | **Tir Mynediad Agored**<br>Mae'r math hwn o dir ar agor i gerddwyr a phobl sy'n defnyddio offer symudedd. Mae'n cael ei ddynodi gyda symbol o ffigwr brown. Does dim rhaid i gerddwyr aros ar lwybrau ar diroedd mynediad agored. |

Cysylltwch â ni os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am Yr Wyddfa neu os hoffech fod yn Warden gwirfoddol:


**Alun Gethin Jones** (Prif Gyswllt)

**Warden Ardal (Yr Wyddfa)**

**Ffôn symudol:** 07900 267 505

**Swyddfa:** 01286 872 555

**Ebost:** alun.jones@eryri.llyw.cymru

**Ffion Warner** (Prif Gyswllt)

**Warden Ardal Cynorthwyol (Yr Wyddfa)**

**Ffôn symudol:** 07900 267 509

**Swyddfa:** 01286 872 555

**Ebost:** Ffion.Warner@eryri.llyw.cymru